

## BARDDONIAETH

### BEIRNIADAETH LLION JONES

#### 372 Cerdd ddychan / ddigri: Cân Brotest

---

Er bod dychan a digrifwch yn nodweddion amlwg o'r ddarpariaeth i bobl ifanc ar lwyfannau fel *Hansh*, dim ond un bardd a hudwyd gan destun y gystadleuaeth hon eleni. Diolch byth felly bod yr un ymgeisydd hwnnw *Miri (372/1)* yn ddychanwr llym, yn fydryddwr medrus a Chymreigiwr cadarn. Yr ordd rhagor na'r bluen yw ei ddewis arf fel dychanwr, ond mae'n beryg mai dyna'r unig erfyn y byddai'r henwr brenhinol sy'n wrthrych i'w ddychan yn ei werthfawrogi. Mae *Miri (372/1)* yn llwyr haeddu'r wobr gyntaf.